



**CYSTADLAETHAU
GWYDDONIAETH
A THECHNOLEG
2020**

GWYDDONIAETH

A THECHNOLEG

EISTEDDFOD

EISTEDDFOD

Ceredigion
1-8 Awst 2020



#steddfod2020
www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900



CROESO

WELCOME

EISIAU ENNILL HYD AT £1,000? DYMA'CH CYFLE!

Beth am roi tro ar un o gystadlaethau gwyddoniaeth a thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol? Mae'r cystadlaethau ar agor i bawb – o oedran ysgol i fyny! Felly beth am fynd amdani a chystadlu yn 2020?

Mae'r Eisteddfod yn dod i Geredigion, ac mae lle amlwg i wyddoniaeth a thechnoleg yn yr ŵyl.

Dewch draw i'r Pentref Gwyddoniaeth ar y Maes i weld pob math o arddangosfeydd ac i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru a thu hwnt. O sioeau gwyddoniaeth gwallgof i sgyrsiau, ac o sesiynau ymarferol i ddarlithoedd, mae rhywbeth i bawb sy'n hoffi gwyddoniaeth yn y Pentref.

Dyma fanylion y cystadlaethau cyfansoddi yn yr adran wyddoniaeth a thechnoleg eleni. Maen nhw ar agor i bawb! A bydd cystadlaethau ymarferol hefyd yn cael eu cynnal yn y Pentref yn ystod yr wythnos.

Manylion rhaglen yr wythnos ar-lein o fis Mehefin.

~~~~~  
**EISTEDDFOD**

## Cystadlaethau

114

### Gwobr Dyfeisio Arloesedd

Cystadleuaeth i wobrwyo syniad arloesol a chreadigol sydd er budd i'r gymdeithas. Gall fod yn syniad neu ddyfais sy'n cynnig ateb i broblem bresennol mewn unrhyw faes (e.e. amgylchedd, amaethyddiaeth, meddygaeth, technoleg, peirianneg). Gofynnir am geisiadau heb fod yn hwy na 1,000 o eiriau sy'n amlinellu'r syniad. Gall fod yn waith sydd wedi ei gyflawni'n barod neu yn gysyniad newydd

**GWOBR:**

£1,000 (Beryl Wyn Williams) i'w rannu yn ôl dymuniad y beirniad gyda lleiafswm o £500 i'r enillydd

**BEIRNIAD:**

Iolo ap Gwynn



112

### Erthygl Gymraeg

Erthygl yn ymwneud gyda phwnc gwyddonol ac yn addas i gynulleidfa eang heb fod yn hwy na 1,000 o eiriau. Croesewir y defnydd o dablau, diagramau a lluniau amrywiol. Croesewir gwaith unigolyn neu waith grŵp o unrhyw oedran. Ystyrir cyhoeddi'r erthygl fuddugol mewn cydweithrediad â'r cyfnodolyn Gwerddon [www.gwerddon.cymru](http://www.gwerddon.cymru)

**GWOBR:**

£400 (i'w rannu yn ôl dymuniad y beirniad, gyda lleiafswm o £200 i'r enillydd (£150 Gwobr Goffa Bryneilen Griffiths a Rosentyl Griffiths; £150 Cronfa Goffa Eirwen Gwynn; £100 Daniel Thomas, Llangeitho er cof am Robert Thomas)

**BEIRNIAD:**

Helen Ougham

113

### Erthygl ar unrhyw agwedd o fyd natur

Erthygl addas ar gyfer ei chyhoeddi yn Y Naturiaethwr. Anogir y defnydd o dablau, diagramau a lluniau amrywiol. Sylwer y dylid cydnabod gwaith awduron eraill lle bo'n briodol

**GWOBR:**

£200 (Er cof am Ieuan Roberts o Lanbedr Pont Steffan gan y teulu)

**BEIRNIAD:**

Goronwy Wynne

Dylid dehongli 'gwyddoniaeth' a 'gwyddonol' yn hyblyg, hynny yw, i gynnwys meysydd gwyddonol, peirianegol, mathemategol, technolegol a meddygol.

## Sut i gystadlu

Ewch i'r Rhestr Testunau am ffurflen gais a manylion cystadlu. Gellir lawrlwytho'r rhestr o wefan yr Eisteddfod, [www.eisteddfod.cymru](http://www.eisteddfod.cymru). Dylid anfon copi o'r gwaith ynghyd â chopi electronig at:

**Swyddfa'r Eisteddfod**

15 Parc Busnes yr Wyddgrug  
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint, CH7 1XP

Dyddiad cau:

**1 Ebrill 2020**





**#steddfod2020**

**Tocynnau: 0845 4090 800**

**Gwybodaeth: 0845 4090 900**

**[gwyb@eisteddfod.org.uk](mailto:gwyb@eisteddfod.org.uk)**

**[www.eisteddfod.cymru](http://www.eisteddfod.cymru)**